Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 8. Rhif 4.] EBRILL, 1908. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd. Alva.
Cristionogaeth Undodaidd.
Cred Undodaidd.
Oddiar y Twr.
Y Parch. T. Lloyd Jones, Lerpwl.
(Gyda Darlunian).
"Bywyd Iesu" gan Renan.
Breintiau Dynes.
Congl yr Awen.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 cop ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School, Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

LLYWYDD—CADBEN W. DAVIES.
TRYSORYDD—MR. JOHN EVANS, CYFREITHIWR, LLANDYSSUL.

CYFARFODYDD CHWARTEROL Y PASC.

Cynhelir y Cyfarfodydd uchod eleni yn ALLTYPLACA, ar ddyddiau MERCHER ac IAU, EBRILL 22 a 23. Dechreuir cwrdd nos Fercher am 6, dydd Iau am 10.30, 2, a 6. Cynhelir y Pwyllgor boreu Iau am 9 o'r gloch. Estyna'r cyfeillion yn Alltyplaca groesaw cynes i'r gweinidogion, cynrychiolwyr a dieithriaid. Y Pregethwr fydd y Parch. M. Evans, Aberdar.

YN AWR YN BAROD, PRIS 2s. 6c.

Yr Hen a'r Newydd mewn Duwinyddiaeth,

GAN Y

Parch. D. ADAMS, B.A., Liverpool.

Ar werth gan J. D. Lewis, Swyddfa'r 'Ymofynydd', Llandyssul.

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

Attodlen i'r 'Ymofynydd,' Ebrill, 1908.



Y PARCH. T. LLOYD JONES.

LERPWL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1908. [CYF. VIII. RHIF 4.

AR EDYN FFYDD.

Fry nghwmni 'hedydd
Y boreuddydd âf ;
Yn y glas ysblenydd
Pyncio gobaith wnaf.

I'r uchelder tawel
'Hedaf gyda ffydd ;
Ac ar drothwy'r Anwel
Salmaf odlau'r dydd.

Meddwl Duw dywyna
Dros y glesni glân ;
Cariad Duw ganghena
Drwyddo'n ddwyfol gân.

O ! mor felus esgyn
I gynteddau'r wawr ;
Hyfryd canu emyn
Yn yr harddwch mawr.

Dringaf gyda'r Iesu
O fy hunan llwm ;
Nos o hyd sy'n llethu
Y gauafol gwm.

Dringaf gan weddio
Gobaith ar fy nhaith ;
Cariad sy'n blodeuo
Dros y llethrau llaith.

Tyrfa o gredoau
Am fy meichio sydd ;
Plethant yn gymylau
Rhyngof fi a'r dydd.

O ! waredwr tyner,
Gaf fi wel'd y Nef,
Sydd yn wyn bob amser
Yn ei fywyd Ef?

Rhag. 11, 1907. ALVA.

CRISTIONOGAETH UNDODAIDD.

DYSG Cristionogaeth Undodaidd fod Duw yn Dad i ni, llawn cariad at bawb o'i blant. Dysgwn oddiwrth Iesu fod y Tad yn gwrandaw ein gweddiau ac yn gwylied drosom gyda gofal mwy na thros lili'r maes ac adar yr awyr.

Dysg Iesu ni hefyd, nad pa mor bwysig yw i gael golwg gywir am bethau crefyddol, ei bod yn llawer mwy pwysig i garu Duw â'n holl galon, a'n holl feddwl, enaid a nerth, a'n cymydog fel ni ein hunain. Oblegid dywed mai y rhai hyn yw y ddau orchymyn cyntaf, ac nad oes yr un arall yn fwy na'r rhai hyn.

Dysg Iesu ni hefyd mai'r ffordd ini fyned i deyrnas nefoedd yw, nid trwy ddal duwinyddiaeth gywir yn unig, ond trwy gael ein troi a'n gwneuthur fel plant bychain (Matt. 18 : 3)—yn syml ein calon, yn gariadus ac yn bur.

Dysg Undodiaeth Gristionogol fod Duw, ein Tad, yn ein hawlio fel ei blant, a phan sonia Iesu am dano ei hun fel Mab Duw, golyga ini bawb gofio ein bod ninau oll yn blant i Dduw hefyd, er ein bod yn anffodus fel meibion a merched wedi llychwino ein hunain â llawer o feddyliau a gweithredoedd.

Hoffa Undodiaeth Gristionogol Ddameg y Mab Afradlon, am ei bod yn dysgu mewn ffordd mor eglur ac mor brydferth y modd y mae Duw yn caru ac yn maddeu, a chyda'r fath dosturi tyner yn edrych arnom pan fyddom wedi pechu. Cred Undodiaeth Gristionogol fod Duw yn llefaru wrth ei blant yn awr mor wirioneddol ag a wnaeth wrth y Proffwydi gynt, ac wrth Iesu Grist, gan eu diddanu, eu nerthu, a'u goleuo. Ei lais sanctaidd ef yw Cydwybod.

Gwel Undodiaeth Gristionogol yn Iesu Grist fywyd a chymeriad o'r prydferthaf, yn ysprydoliaeth ryfeddol i bawb o honom, delfryd ini ymgyraedd am dano ; a meddwl am dano fel ein Brawd Hynaf, o'r un natur a ni ein hunain.

Ni chred Undodiaeth Gristionogol y denfyn Duw neb o'i blant i wae tragwyddol. Y mae'r fath syniad yn groes hollol i'w garitor fel Tad. Y mae'n ein harwain oll tuag at y bywyd sanctaidd a phur ar gyfer yr hwn y dygwyd ni i fodolaeth.

R.A.A.

CRED UNDODAIDD.

Nid oes gan Undodiaid gredo awdurdodol a sefydledig ; mae'r gweinidog a'r gynulleidfa at eu rhyddid i ddilyn gwirionedd, cyfiawnder, a chariad, i ba le bynag yr elont. Credir fod yr hyn a ganlyn yn gosod allan yn deg y golygiadau sydd yn ffynu yn gyffredin yn eu plith heddyw.

Duw. Cred Undodiaid yn undod a chyfiawnder a chariad Duw. Cadarnheir y ffydd hon gan reswm a chydwybod, a chan brofiadau dyfnaf y dynion ardderchocaf sydd wedi byw.

Iesu. Cred Undodiaid fod efengyl Tadoldeb Duw a Brawdoldeb dyn, fel y dysgodd Iesu hwynt, yn grefydd ar eu goreu ac ar eu huwchaf. Gwir ddisgyblion y proffwyd o Nazareth yw y rhai y mae ganddynt ffydd yn Nuw, rhai yn meddu calonau pur, ac yn byw bywydau o ddefnyddioldeb.

Beibl. Cred yr Undodiaid i Dduw lefaru trwy broffwydi, apostolion, a seintiau, a'i fod yn llefaru heddyw wrth bob enaid fo'n gwrandaw, trwy natur, trwy lais cydwybod, geiriau y doeth, esiampl y da.

Iachawdwriaeth. Cred Undodiaid y caiff pawb a adawant eu meddyliau a'u gweithredoedd drwg, a geisiant yn ddifrifol am ysprydoliaeth ac arweiniad, pawb sydd yn byw bywydau pur ac anhunangar, eu derbyn i deyrnas Dduw.

Gwyddor. Cred Undodiaid y dylai darganfyddiadau Gwyddor a chynydd gwybodaeth ddwyn llawenydd ac nid dychryn i'r galon ddynol. I'r graddau y bydd cyfeiliornadau yn cael eu dinystrio, bydd ffordd yu cael ei pharotoi i ffurf ardderchocach o grefydd.

Nefoedd. Cred Undodiaid fod yna fywyd uwch yn aros pawb o blant Duw, yr enill gwirionedd y fuddugoliaeth ar gyfeiliornad, ac y bydd i gariad orchfygu cas.

W.C.B.

ODDIAR Y TWR.

Yr ydym yn byw mewn amserau dyddorol a chyffrous i'r eithaf. Trwy'r oll o gymdeithas ceir dylanwadau ydynt yn gwneud—neu, duedd y rhai yw gwneud—am y bywyd eangach, nad yw'r hil ddynol, gyda'u gilydd, eto ond wedi cael cipdrem aneglur arno. Efallai fod hyn yn fwy gwir mewn

Cylchoedd Crefyddol

nag mewn un cylch arall, gyda'r eithriad (o bosibl) o'r cylch gwleidyddol. Ond, gyda llaw, yn mha le y mae tynu'r llinell wahaniaethol rhwng crefydd a gwleidyddiaeth. Yn marn llawer (os nad yn marn y mwyafrif) mae crefydd a gwleidyddiaeth yn ddau beth hollol wahanol. Ond ymddengys i mi nad yw gwleidyddiaeth, yn yr ystyr oreu o'r gair, ond ymgais i gario crefydd i weithrediad mewn cysylltiad ag amgylchiadau bydol dyn. Yn ol yr olwg hon ar y mater,

mae'r ddau yn dal cysylltiad mor agos â'u gilydd, fel mai anmhosibl yw codi i fyny fur gwahaniaethol rhyngddynt. Ond a'r byd crefyddol y mae a fynom ni yn awr. O braidd yr ä wythnos heibio heb fod pelenau ffrwydrol o hereticiaeth (o ryw ffurf neu gilydd) yn cael eu taflu i amddiffynfeydd iawnffyddiaeth, gan beri cryn lawer o ddychryn i'r amddiffynwyr, a dinystr i hen ddelwau a chredoau cysegredig. I'r sylwedydd craffus mae'r olygfa yn ddyddorol i'r eithaf; ac i'r sylwedydd sydd mewn cydymdeimlad âg yspryd blaenfynediad yn myd y meddwl—yn wleidyddol, cymdeithasol, duwinyddol, a chrefyddol—mae'r olygfa yn foddhaol a chalonogol iawn. Nid oes llawer gyda blwyddyn er pan y dygwyd i sylw cyffredinol gan weinidog y City Temple yr hyn a elwir yn

Dduwinyddiaeth Newydd.

Nid oes ynddi ddim yn newydd mewn gwirionedd. Er's amryw ddegau o flynyddau—er yn gynar yn y ganrif ddiweddaf—clywid adseiniau gwan o honi yma a thraw; tra o ambell i bwlpud—megis eiddo'r diweddar Ward Beecher—y pregethid hi yn ddiofn a difloesgni. Lleisiau yn yr anialwch oedd y rhai hyn; ac yr oeddynt bron heb eithriad yn gyfyngedig i'r Amerig. Ni chlywid ond ychydig am dani yn Mhrydain. Gwagelog iawn oedd yr ychydig a anturient dros y llinell rhwng iawnffyddiaeth a hereticiaeth; a rhy wan oedd dylanwad y rhai a wnelent hyny i ddwyn y ddysg newydd i sylw cyffredinol. Rhaid oedd wrth ddyn o safle uchel yn y byd crefyddol fel apostol y Dduwinyddiaeth Newydd cyn y llwyddid i enill sylw cyffredinol ati. Y fath ddyn a gawd yn ngweinidog y City Temple. Yr oedd y City Temple yn enwog yn mhell cyn i Mr. Campbell ddod yn weinidog yno. O braidd na edrychid ar y City Temple gan Ymneillduwyr Prydain yn yr un goleu ag yr edrychai'r Cydffurfwyr ar Eglwys Sant Paul neu Fynachlog Westminster. Pan ddaeth Mr. Campbell yn weinidog yno ar ol y diweddar Ddr. Parker, daeth ei enw ar unwaith yn un teuluaidd trwy holl gylchoedd ymneillduol y wlad. A phan y dechreuodd efe bregethu y Dduwinyddiaeth Newydd, yr oedd cyhoeddusrwydd iddi yn anocheladwy. Erbyn hyn mae y mudiad a gafodd y fath symbyliad gan ei dadogaeth ef o hono wedi dod yn un nerthol; a dechreuir cymeryd mesurau eisoes gan ei bleidwyr i drefnu eu rhengoedd yn un fyddin unol. Mae'n amlwg, felly, nad drychiolaeth ddifywyd, heb nerth digonol i barhau, yw'r Dduwinyddiaeth Newydd, ond dechreu chwyldroad yn y byd duwinyddol a chrefyddol, diwedd yr hwn na ellir yn hawdd ei weled. Yn cydredeg â'r mudiad hwn gwelir arwyddion fod yr yspryd newydd wedi treiddio i fewn i'r

Babaeth,

ac yn dechreu gwneud ei ôl yno—yn y lle olaf, allem dybied, i awel o hereticiaeth i fyned fddo. Nid yn ddiweddar, fodd bynag, y mae

hyn wedi dechreu. Nid oes llawer o flynyddau er pan y perwyd cyffro trwy holl wersyll y Babaeth gan heresi y diweddar George Mivart. Ei heresi ef oedd dadleu dros y syniad fod dedwyddwch yn bosibl yn uffern. Darfu i mi ddarllen y llyfr yn yr hwn y dadleuai dros y syniad hwn. Ar ol ei ddarllen, ni allwn beidio meddwl y byddai i dân uffern fod mor boeth ar ol hyny. Nid oedd i Mivart, fodd bynag, ganlynwyr. Felly, hawdd oedd ei ddistewi. Dyna wnawd. Yna, mae rhai o'n darllenwyr yn ddiau wedi clywed am Abbe Loisy. Dadleuai ef yn erbyn i'r Eglwys Babaidd gauad allan bob goleuni newydd deflid ar y grefydd Gristionogol gan wyddor a beirniadaeth ddiweddar. Dygwyd holl bwerau y Babaeth i'r maes er cael ganddo i encilio o'i safle newydd, a datgan ei barodrwydd i ufuddhau i gredoau ac ordeinhadau ei Eglwys. Gwrthododd yntau wneud hyn; gyda'r canlyniadau ei fod yn awr yn esgymunedig, Yn ddiweddaf oll daeth y Tad Tyrrell i'r maes. Yr un oedd ei bechod ef ag eiddo ei ragflaenydd—Loisy, ac yn ol yr arwyddion presenol, yr un fydd ei dynged hefyd. Mae'n amlwg nad oes lloches yn yr Eglwys Gatholig i'r ysprydnewydd sydd yn amlygu ei hun tu allan iddi yn mhob cyfeiriad. Gwneir hyn yn amlwg gan

Gylchlythyr diweddaf y Pab.

Gall ysgolheigion bendrymu uwchben y cwestiynau y mae gwybodaeth berffeithiach y dyddiau diweddaf mewn gwyddor, hanes, ieithyddiaeth, ac yn y blaen, wedi wthio i sylw. Mor bell ag y mae gallu'r Eglwys Babaidd yn cyrhaedd, mae eu holl lafur yn ofer. A ydyw hyn i barhau byth? A oes llwyddiant i ddilyn eu hymgeisiadau i rwystro'r ysprydblaenfynedol sydd mor nodweddiadol o'n hoes rhag ymosod arni? Yn mhlith ei hymlynwyr ceir lluoedd o ddynion mwyaf deallgar a dysgedig ein hoes—rhai nas gallant, gallem dybied, lai na bod mewn cydymdeimlad â'r ysprydnewydd. Eto, mae gair o Rufain yn ddigon i'w gyru i'w llochesau, a mogi pob meddwl newydd a ddichon fod yn raddol ddod i fodolaeth yn eu mynwesau. Mae gair y Pab, fel mae'n amlwg, yn derfyn ar bob dadl i bron yr oll o ddeiliaid Eglwys Rhufain. Nid yw'r

Pabau Ymneilldduol

mor llwyddianus yn eu hanturiaethau. Yn ystod yr amser byr y mae'r Dduwinyddiaeth Newydd wedi bod o flaen y cyhoedd, mae wedi enill tir o ddydd i ddydd—yn neilldduol felly, mae'n debyg, yn yr enwad Cynulleidfaol yn Lloegr. Nid oes ball ar arwyddion fod rhwygiad yn bygwth yr enwad hwn mewn canlyniad i hyn. A oedd y blaenoriaid yn myned i aros yn fud, heb wneud un ymgais unedig i wrthsefyll y llif ymchwyddol? Nac oeddent yn sicr. Nid oedd y syniadau newydd i gael meddianu'r maes yn ddi-wrthwynebiad. Beth ellid wneud? Yn gyntaf, gwnawd ymgais gan bersonau unigol i'w ladd â gwawd a difriaeth. Yna, pan y gwelwyd nad oedd hyn yn

ateb y dyben, ymgymerodd ugain o "gadeirwyr yr Undeb ac athrawon colegau" (Cynulleidfaol) â thynu allan "gyffes ffydd" er sicrhau'r byd crefyddol nad oedd a fynont hwy a'r enwad y perthynent iddo ddim â'r Dduwinyddiaeth Newydd. Gobeithid, yn ddiau, yr atebai'r "gyffes" hon yr un dyben a "llythyr y Pab"—diffodd yr yspryd newydd oedd yn ymwthio i'r eglwysi. Ond ni feddai'r "gyffes" yr un gallu i sicrhau ufudd-dod ag a feddai "llythyr y Pab." Mae'r "gyffes," er nad oes (pan yn ysgrifenu) ond prin mis er pan y cyhoeddwyd hi, wedi syrthio eisoes i'r dinodedd a haedda, heb achosi cymaint a chrychni ar wyneb y dyfroedd. Am y "gyffes" ei hun, nid oes gofod i ddweyd rhagor na hyn yn awr—ei bod yn

GYNYRCH RHYFEDDOL—

rhyfeddol ar gyfrif ei chynwys, yn enwedig pan gofiom fod y fath nifer o ddynion dysgedig wedi bod yn ei llunio; rhyfeddol hefyd ar gyfrif yr hyn a adewir allan o honi. Trwy y "gyffes" hon, mae'r ugain dynion dysgedig hyn yn dod gerbron fel pabau anffaeledig, ac ymgymerant a phenderfynu beth sydd iawnffyddol, a pha beth sydd heb fod felly. Am eu galluoedd a'u dysgeidiaeth nid oes amheuaeth. Ond y mae'r yspryd y maent wedi amlygu—rhai o honynt yn enwedig—mewn perthynas i'r cyffro duwinyddol y mae'r Dduwinyddiaeth Newydd yn arwydd mor nodedig o hono yn geryddadwy iawn. Mae dydd yr yspryd hwn, yn y byd Protestanaidd, wedi myned heibio—neu, o leiaf, y mae yn hen bryd iddo fyned heibio. Yr ydym ar ddechreu dydd gwell, nodweddau amlycaf yr hwn fydd ymchwiliad am y gwirionedd, ac ymgais i wneud egwyddorion crefydd yn egwyddorion llywodraethol bywyd yn ei holl gysylltiadau. Nid yw cynyddu yn bosibl lle mae iawnffyddiaeth yn meddu'r afael drechaf. Dim ond awelon iachus rhyddid yn unig sydd ffafriol i gynydd.

Y GWYLIEDYDD.

Y GENINEN.—Y mae rhifyn Gwyl Dewi o'r *Geninen* yn wir deilwng o'r cyhoeddiad cenedlaethol. Ynddo ceir erthyglau galluog yn son am rinweddau anwyliaid gollwyd yn y glyn, ac yn eu plith ceir erthygl ragorol gan y Parch. R. J. Jones, M.A., ar y diweddar Barch. William James, Llandyssul.

Y *Christian Life.*—Bwriedir dwyn allan rifyn arbenig o'r uchod tua'r Sulgwyn. Y mae i gynwys darluniau o weinidogion ac arweinwyr yr enwad drwy'r wlad, yn nghyd ag erthyglau ar egwyddorion Undodaidd, &c. Dymunem gyflwyno y rhifyn i sylw ein heglwysi. Ni fydd ei bris ond ceiniog.

Y PARCH. T. LLOYD JONES, LERPWL.

Myn rhai dynion na fedr Undodiaeth fod yn allu cenhadol, ac nad ydyw Undodiaid yn ymgeisio gwneud dim

DROS DLODION A PHECHADURIAID

ein trefydd mawrion. Desgrifir ein hefengyl fel efengyl dynion goludog, neu o leiaf, efengyl y *well-to-do.* Eithr nid yw y desgrifiad yn gywir, am fod cenhadwyr Undodaidd i'w cael yn ein dinasoedd mwyaf poblog, megys Llundain, Birmingham, Leeds, Manceinion a Lerpwl. Ond gydag un yn unig o'r cyfryw y dymunwn ymwneud yn yr erthygl hon, sef Cenhadaeth Gartrefol Lerpwl. Daliwch sylw ar y gair "cartrefol." Nid yw Undodiaeth yn credu ond ychydig mewn danfon tunelli o gyfrolau Iddewig ac o lyfrau Emynau dros

DOMESTIC MISSION, LIVERPOOL.

for a thir er "achub y pagan du." Yn wir ni chredant yn yr angenrheidrwydd o ddysgu cred naill ai i ddyn gwyn nac i ddyn du. Daliant mai y cenhadon goreu a ddanfonir o'n gwlad ydynt y cenhadon meddygol ac nid y cenhadon pregethwrol. Ac yn yr yspryd hwn y sefydlir pob cenhadaeth gartrefol gan yr Undodiaid. Nid i achub dynion rhag myned i ryw uffern ddychmygol tuhwnt i fyd ac amser eithr i achub dynion rhag aros yn, a llithro i uffern wirioneddol ein dinasoedd mawrion.

Edrychwch, er enghraifft, ar waith ein cenhadaeth yn Lerpwl. Dyma'r cenhadwr ei hun! Nid pregethwr mo hono, ac eithrio ei het a'i gadach gwyn, eithr mwy na phregethwr, sef cenhadwr a dyn. Nid duwinyddiaeth ond dynoliaeth yw ei fyfyrdod; nid prophwyd y byd a ddaw ydyw

TOM LLOYD JONES,

eithr gweithiwr yn y byd sydd yr awrhon. Ac er y drwg a'r pechod, y trueni a'r tlodi mae wedi byw ynddo am bump mlynedd a'r hugain yn Lerpwl nid ydyw wedi colli ei wen na'i siriol deb am nad ydyw wedi colli ei ffydd yn y natur ddynol. Mae

wedi dehongli digon o faterion ymarferol fel nad oes angen arno boeni ei ben a *phroblems* y llyfrgell. Nid cwymp Adda ond cwymp bachgen neu ferch yw ei bryder, ac ar ol dodi yr olaf ar eu traed, does ganddo amser na chwaeth i olrhain hanes coed afalau gardd Eden. "Crefydd weithgar" ydyw crefydd y cenhadwr hwn, ac mae hyn i'w weled yn mhob symudiad o'i gorph. Nid yw byth yn gorphwys; a synwn ni fawr glywed mai ar ei draed y mae yn cysgu. A rhyfedd fel mae ei lafur diflino wedi ei ad-dalu o ran ei ddyn allanol. Nis gwn pa flwydd y ganwyd ef

YN NYFFRYN AERON,

ond os yw ymddangosiad allanol i fod yn brawf nid yw yn bosibl fod Tom Lloyd Jones ar gael cyn y flwyddyn 1870. Ac nid aiff byth yn hen am fod ganddo galon ac egni crwt Ar gareg ei fedd (maddeued im' am awgrymu y fath anamserol beth) priodol fyddai gosod y geiriau—

"Yma gorwedd ar ol hir ddyddiau
Un a fu farw yn hogyn."

"*Cheery optimism*" (caiff y Golygydd gyfieithu) ydyw nodwedd ei bersonoliaeth, ei waith a'i grefydd. Pa ryfedd ynte ei fod wedi bod mor llwyddianus yn ei weinidogaeth; a pha ryfedd fod pawb yn Lerpwl yn barod i'w gyfarch ar yr heol. Fe fedr fyned yn ddiogel i rai ystrydoedd yn Lerpwl lle na feiddia heddgeidwad fyned.

"Ond ar ba linellau," medd y darllenydd, "mae Mr. Lloyd Jones yn gweithio. Rhowch i mi ychydig fanylion. Gwelir yn y darlun ganolbwynt y gwaith, adeilad gwerth deng mil o bunau, Mae ynddo gapel ac ysgol, yr olaf yn cynwys 500 o blant bob Sul. Hefyd Neuadd fawr er cynal cyfarfodydd bob hwyr yn yr wythnos. Nid unwaith bob saith diwrnod yr agorir drysau yr adeilad, ac nid yw'r coryn yn nythu yno. Cyfarfodydd plant, cyfarfodydd meibion a merched, cyfarfodydd mamau, cyfarfodydd dirwestol, dosbarth Beiblaidd, Cymdeithas Ddarbodus (*Provident*), dospeirth cerddorol, llenyddol a chymdeithasol, darlithiau rhydd, cymdeithas cleifion a meirwon, ac felly yn y blaen hyd ddiwedd y benod hir a dyddorol

Nid y'm am ddweyd mai ein cyfaill, Tom Lloyd Jones, er mor weithgar ydyw, sydd yn gwneud yr oll o'r gwaith. Mae ganddo lawer o gynorthwywyr, eithr efe ydyw

YSBRYD Y PETH BYW

o fewn i'r olwynion. Ac o'r tucefn iddo mae yna wedi bod amryw gyfeillion, hynod am eu cydymdeimlad a dyfnder eu poced,—cyfeillion yn dwyn yr enwau parchus, Roscoe, Booth, Lamport, Holt, Tate, Jones, Bowring a Brunner. Ond ofer fyddai byddin o gynorthwywyr a mynydd o aur heb galon deimladol a meddwl ymarferol y cenhadwr. Os gwir yw mai angenrhaid ydyw i'r bardd gael ei *eni* yn fardd—gallwn ddweyd hefyd yn ffyddiog nas gellir addysgu un i fod yn genhadwr os nad yw'r elfenau anhebgorol yn ei feddiant yn barod, calon dyner, cymeriad glan, arddull syml ac attyniadol, gallu ymarferol y *business man*, natur gyfeillgar a pharodrwydd i weled ffeithiau oddiar safbwynt pawb arall. Dyn—nid rhy fawr i ganfod pethau bychain; dyn—nid rhy fychan i ganfod pethau mawrion; dyn wedi ei drwytho ag ysbryd Crist ac eto fel Crist yn byw beunydd yn nghwmni ac er mwyn publicanod a phechaduriaid. A maddeued "Tom" i ni am gredu ac ysgrifenu am dano yn y cyweirnod uchod. Os oes esgusodiad yn angenrheidiol am ein ymarweddiad, gadewch i ni gyfaddef nad y'm yn credu fod yn eisieu i ddyn farw cyn cydnabod ei werth.

Oes siaradwyr yw ein hoes ni; arwyr y dafod sydd beunydd o flaen ein llygad; y nhw sydd yn cael y clod a'r seddau blaenaf. Ond dyleswydd yw cofio fod yna ddynion eraill, dynion sydd ddistaw gyda-

golwg ar y *modd* i achub dynion, am eu bod mor ddiwyd yn y gwaith *o* achub dynion. Mae Sir Aberteifi wedi magu llawer i bregethwr Undodaidd o bob maint a llun, eithr

DIM OND UN CENHADWR,

sef Tom Lloyd Jones. Nid ymffrostia mewn ysgoloriaeth nac hyawdledd, nid yw yn ddyn cyhoeddus yn yr enwad, 'does neb yn meddwl am ei enw pan fydd eglwys gyfoethog yn wag, 'does nemawr le iddo yn ein cyfarfodydd mawr; arglwydd y *slums*, nid arglwydd y llwyfan a'r pwlpud ydyw ein brawd ŏ Ddyffryn Aeron; ac os yr ydych yn awyddus i wybod pwy ydyw a pheth ydyw ei werth, nac ewch i dudalenau papyrau, nac ewch at dduwinyddion hen ac ieuanc, ewch i *slums* Lerpwl, at y truan a'r gwan, y meddw a'r weddw, y tlawd a'r amddifad. Yno, ac nid can milldir o'i gartref mae ei werth yn amlwg. Pell bo'r awr cyn fod rhaid iddo orphwys oddiwrth ei lafur. Tra fo byw, a phob un o'i fath, ni raid i Undodiaeth gywilyddio, canys "wrth hyn y gwybydd pawb eich bod yn ddisgyblion i mi, os bydd genych gariad i'ch gilydd."

Dukinfield. E. GWILYM EVANS.

"BYWYD IESU" GAN RENAN.

PENNOD III.

AMGYLCHIADAU MEDDYLIOL DADBLYGIAD IESU.

Megys y mae'r belen ddaearol yn ei safle oer bresenol yn ein hatal i iawn ddeall cynllun creadigaeth, am fod y tân cynoesol a dreiddia drwyddi wedi diffodd; felly hefyd mae pob eglurhad hanesyddol yn anmherffaith, pan y ceisir ei gymhwyso at, yn ein dull ofnus ein hunain, at y chwyldroadau a gymerasant le yn y cyfnodau creadigol hyny sydd wedi penderfynu tynged dynoliaeth. Y mae'r bobl Iddewig wedi cael y fantais, fyth oddiar amser y gaethglud i Babilon, o fod bob amser mewn rhyw ystad o angerddoldeb. Hyn yw'r rheswm fod ceidwaid meddwl y genedl, am y cyfnod hirfaith hwn, fel pe wedi ysgrifenu o dan effaith rhyw dwymyn boeth sydd wedi ei gosod bob amser naill neu uwchlaw neu islaw rheswm—anaml iawn y cymerant lwybr canol. Ni wnaeth dyn erioed ymaflyd â chwestiwn y dyfodol a'i dynged ei hun gyda chymaint dewrder diobaith, gan benderfynu chwilio'r peth i'w eithafion.

Heb wahanu hanes dynoliaeth oddiwrth hanes eu cenedl fechan eu hunain, y meddylwyr Iddewig oeddynt y cyntaf i greu syniad cyffredinol am orymdaith yr hil ddynol yn ei blaen. Cododd Groeg haneswyr godidog, er mor gauedig ynddi ei hun ydoedd, ac er mor neillduol o gyfyngedig i gwerylon ei threfi bychain oedd ei holl ddyddordeb; ond cyn y cyfnod Rhufeinig ofer chwilio o'i mewn am gyfundrefn gyffredinol o athroniaeth hanes a gymer i mewn holl ddynoliaeth, ond y mae'r Iddew, i'r gwrthwyneb yn rhinwedd math o allu proffwydol, wedi peri i hanes dreiddio i mewn i grefydd. Efallai ei fod i raddau yn ddyledus i Persia am yr ysbryd hwn. Er's oesau meithion, y mae Persia

wedi dychmygu hanes fel cyfres o ddadblygiadau, a phroffwyd yn cynrychioli pob dadblygiad. Y mae i bob proffwyd ei deyrnasiad o fil o flynyddau, ac o'r cyfnodau dilynol hyn y gwneir i fyny y cwrs hwnw o ddygwyddiadau a barotoant y ffordd i deyrnasiad Ormusd. Ar derfyn yr amser hwn pan fo cylch y chwyldroadau hyn wedi dyfod i ben, y del y wir baradwys yn y diwedd. Yna y bydd dynion yn ddedwydd ; y ddaear a wneir yn un gwastadedd ; ni bydd ond un iaith, un gyfraith ac un llywodraeth i bawb dynion. Ond rhagflaenir y cyfnod hwn gan ddigwyddiadau tra dychrynllyd. Tyr Dabak (Satan Persia) yr heiyrn a'i cadwyna, a theifl ei hun ar diriogaethau'r ddaear. Daw dau broffwyd i gysuro dynion a'u parotoi erbyn yr amgylchiad dirfawr hwn.

Yr oedd y syniadau hyn wedi rhedeg drwy y byd ac wedi cyrhaedd hyd at Rhufain, lle y gwnaethant ysprydoli beirdd i ganu cyfres o gerddi proffwydoliaethol, syniadau sylfaenol y rhai ydynt, dosraniad hanes dynoliaeth yn gyfnodau, ag olyniaeth y duwiau yn ateb i'r cyfnodau hyn, adnewyddiad hollol o'r byd, a dyfodiad oes aur yn y diwedd. Nid yw llyfr Daniel, llyfr Enoc, a rhanau neilldiol o lyfrau'r proffwydesau, ond mynegiant Iddewig o'r un ddamcaniaeth. Er hyny, nis gellir maentumio y coleddid y syniadau hyn gan bawb. Ar y cyntaf nis delid hwy ond gan nifer o bersonau cryf eu crebwyll, a thuedd ynddynt tuag at athrawiaethau estronol. Nid yw awdwr cul a sychlyd llyfr Esther wedi meddwl erioed am y byd ond gyda dirmyg ac er mwyn ei ddrygu. Epicuread wedi cael troedigaeth a ygrifenodd lyfr y Pregethwr ; a meddylia cyn lleied am y dyfodol, nes esgeuluso gweithio dros y dô gyfodai ar ei ol ; yn ngolwg yr hen lanc hunangar hwn, gair olaf doethineb yw "bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd." Ond gwneir pethau mawr unrhyw bobl, fel rheol, gan y lleiafrif. Er eu holl ffaeleddau, caledwch, hunangarwch, gwawdiaeth, creulondeb, culni, cyfrwysder, gau-ddoethineb, eto i gyd y genedl Iddewig fu wrth wraidd y symudiad brwdfrydig mwyaf hunanddilëol a welodd y byd erioed. Gwrthwynebiad sydd bob amser yn gwneuthur gogoniant gwlad. Mewn un ystyr, dynion mwyaf cenedl yw'r rhai a rydd i farwolaeth. Socrates fu'n ogoniant Athen, yr hwn osodasant i farwolaeth. Spinoza yw y mwyaf o'r Iddewon diweddar, a chauwyd ef allan dan warth o'r Synagog. Iesu oedd gogoniant pobl Israel, a chroeshoeliasant ef.

Ers canrifoedd lawer, dilynid y bobl Iddewig gan freuddwyd enfawr, yr hwn a adnewyddai eu hieuenctyd beunydd pan yn ngwyndra henaint. Gan na wyddai fawr am wareiddiad y cenhedloedd, rhoddai Judea ei holl serch a'i hiraeth ar ei dyfodol ei hun. Credai gael ohoni addewid dwyfol am ddyfodol diderfyn ; ond trodd ei breuddwydion melus yn ffeithiau chwerw pan welodd y byd, tua'r nawfed ganrif cyn ein cyfnod ni, yn myned fwy fwy dan lywodraeth nerth a gormes ; cadwodd afael gadarn ar gyfuniaeth o'r syniadau mwyaf anmhosibl, a cheisiodd newid ei golwg ar bethau drwy droi ei gwyneb yn y dull mwyaf rhyfeddol.

Cyn y caethiwed, pan oedd holl obaith daearol y genedl wedi diflanu, drwy wasgariad llwythau'r gogledd, breuddwydid am adsefydliad tŷ Dafydd, am ymgymodiad dwy ran y genedl, a buddugoliaeth dilynwyr y Jehofah ar eilun-addolwyr. Yn amser y caethiwed, gwelodd bardd llawn melodaeth ysblander Jerusalem ddyfodol, o flaen yr hon yr ymblygai'r bobloedd a'r ynysoedd pellenig, mewn lliwiau mor swynol a thyner fel y gellid dweyd fod pelydrau o lygaid Iesu wedi treiddio drwy bellder chwech o ganrifoedd.

Am beth amser, ymddangosai buddugoliaethau Cyrus fel yn sylweddoli'r gobaith hwn.

Credai dysgyblion difrif yr Avesta ac addolwyr y Jehofah eu bod yn frodyr. Yr oedd Persia wedi dyfod i gredu mewn math o undduwiaeth. Yr oedd Israel yn dawel o dan yr

Achemenidae, ac o dan Xerxes (Ahasferus) gosododd ei hofn ar yr Iraniaid eu hunain. Ond taflwyd hi yn ol i'w breuddwydion gan ddyfodiad buddugoliaethus ac weithiau annhrugarog gwareiddiad Rhufain a Groeg. Yn uwch nag erioed, galwai ar y Messiah fel barnwr a dialydd ei phobloedd. Rhaid oedd iddi wrth adnewyddiad hollol, wrth chwyldroad yn cymeryd y byd yn ei afael a'i siglo i'w wraidd, cyn digoni y dyhead am ddialedd a symbylid gan ei theimlad o'i rhagoriaeth ar bob cenhedloedd ereill, a chan yr olwg ar ei darostyngiad o'u blaen.

Mor fuan ag y daeth gallu meddwl i'w feddiant, aeth Iesu i mewn i'r awyrgylch a grewyd yn Mhalestina gan y syniadau ydym newydd ddesgrifio. Ni ddysgid y syniadau hyn mewn unrhyw ysgol, ond yr oeddynt yn yr awyr, ac yn gynar iawn aethant i mewn i'w enaid. Ni flinwyd ef erioed gan ein petrusder a'n amheuon ni. Ar ben mynydd Nazareth, lle ni fedr neb yn ein dyddiau ni estedd i lawr heb deimlo'n anesmwyth er efallai'n ysgafn, parthed ei dynged ei hun, bu Iesu hefyd yn eistedd ganwaith heb gael ei flino gan un amheuaeth. Yn rhydd oddiwrth hunangarwch, prif ffynonhell ein tristwch, ni feddyliai ddim ond am ei waith, am ei genedl, ac am ddynoliaeth, y mynyddoedd, y môr, y ffurafen las, a'r gwastadeddau uchel hyd y gorwel, nid oeddynt iddo ef ryw weledigaeth bruddglwyfus enaid yn holi natur parthed ei dynged, ond arwyddlun sicr, cysgodau tryloewon o fyd anweledig a nefoedd newydd.

Ni osodai fawr bwys ar helyntion gwleidyddol ei ddydd ; yn wir mae'n debygol nas gwyddai fawr am danynt. Yr oedd llinach yr Herodiaid yn byw mewn byd mor wahanol i'w eiddo ef, fel nas gwyddai am dani ond wrth enw. Bu farw Herod Fawr tua'r amser y'i genid, gan adael ar ei ol gofion na threngant tyth, a cholofnau ddarfu beri i'r dyfodol mwyaf maleisus gysylltu ei enw ag eiddo Solomon ; eto anorffenedig oedd ei weithiau, ac ni allwyd eu parhau. Yr Idumead uchelgeisiol hwn, gwr cyfrwys, heb lyfetheiriau moesoldeb yn ei flino, wedi ymgolli mewn penbleth yn nghwestiynau crefyddol ei oes, eto feddai'r fantais a rydd tymher oer a rheswm clir ar benboethiaid a feddent fwy o deimlad na gallu meddyliol. Ond buasai ei syniad o deyrnas ddaearol yn Israel, hyd yn oed heb fod yn hollol anamserol yn ei ddyddiau ef, yn sicr o fod wedi troi yn fethiant, fel y drefn a arfaethasai Solomon o'i flaen. Nid oedd ei dri mab ond swyddogion o dan y Rhufeiniaid, yn debyg ag y mae y *rajahs* yn yr India o dan lywodraeth y Saeson. Gwr diog ac egwan oedd Antipater neu Antipas, tetrarch Galilea a Perea, i'r hwn y bu'r Iesu'n ddeiliad drwy ei fywyd ; hoff-ddyn a gwenieithwr i Tiberius ydoedd, ac yn rhy barod i gael ei arwain ar gyfeiliorn gan ddylanwad drwg ei wraig Herodias. Yr oedd Philip, tetrarch Galonitis a Batanea, i dalaethau'r hwn y teithiai Iesu'n aml, yn deyrn llawer rhagorach. Ond Archelaus, ethnarch Jerusalem, nis adnabu'r Iesu erioed. Yr oedd tua deng mlwydd oed, pan ddarfu i Augustus ddiorseddu'r swyddog hwn, gwr gwan a digymeriad, er o dymher wyllt ar droion. Felly y collwyd y rhith olaf o hunanlywodraeth yn Jerusalem. Unwyd Judea a Samaria a Idumea, y rhai rhyngddynt a ffurfient fath o randir dibynol ar dalaeth Syria, lle yr oedd y seneddwr Publius Sulpicius Quirinius, yn gynrychiolydd yr ymherawdwr. Dilynwyd ef gan gyfres o swyddogion Rhufeinig — Coponius, Marcus Ambivius, Annius Rufus, Valerius Gratus, ac yn y diwedd (yn y flwyddyn 26 o'n cyfnod ni) Pontius Pilatus ; y rhai oll a gawsant ddigon gwaith i geisio diffodd y tanau tanddaerol a ymffrwydrent beunydd o dan eu traed. Yn wir yr oedd pleidwyr selog Moeseniaeth yn barhaus yn cadw Jerusalem yn ferw gan eu gweithgarwch tanllyd. Gwyddent mai marwolaeth oedd eu cosp ; ond yr oedd marwolaeth i gadw cyfiawnder y gyfraith yn beth i chwilio'n aiddgar am dano. Dymchwelyd yr

eryrod Rhufeinig, distrywio'r adeiladau celfyddydol a godasid gan yr Hebreaid, manau lle ni thelid parch bob amser i gyfreithiau Moses, codi mewn gwrthryfel yn erbyn y paisarfau teyrngarol a osodasid i fyny gan y swyddogion Rhufeinig, a'r ysgrifau arnynt yn ymddangos fel wedi eu llychwino gan eilun-addoliaeth, dyna demtasiynau parhaus penboethiaid oeddynt wedi cyrhaedd pwynt o frwdfrydedd oedd yn mhell uwchlaw gosod gwerth ar einioes. Judas, fab Sariphia, Mathias, fab Margaloth, dau ddysgawdwr tra nodedig yn y Gyfraith, a ffurfiasant blaid gref ac ymosodol yn erbyn trefn sefydledig y wlad, plaid a barhaodd yn ei gwaith ar ol dienyddiad y ddau arweinydd. Yr oedd y Samariaid hefyd wedi eu terfysgu gan ferw o'r un fath. Ymddengys fel pe bai'r Gyfraith yr amser hwn yn meddu mwy o bleidwyr selog nag mewn un cyfnod yn ei hanes, a hyny ar amser pan oedd un eisoes wedi ymddangos, yr hwn, yn rhinwedd awdurdod ei athrylith, mawredd ei enaid, oedd ar fedr rhoddi terfyn ar y Gyfraith hono.

Dechreuodd y "Zelotiaid" ymddangos, hyny yw, penboethiaid crefyddol a gymerent arnynt eu hunain ladd y neb a wnai, yn eu barn hwy, droseddu'r Gyfraith. Ymddangosodd sect arall, o yspryd hollol wahanol, sef y "Tharmaturgiaid" neu wyrthwneuthurwyr, a gaent y gair o fod yn bersonau dwyfol, ac enillasant lawer o ddilynwyr o herwydd awydd diderfyn am y goruwch-naturiol a'r dwyfol a deimlid gan yr oes.

Mudiad arall a ddylanwadodd lawer yn fwy ar Iesu oedd eiddo Judas y Gaulonead, neu'r Galilead. O'r holl bethau a ystyresid yn ormesol gan y gwledydd oeddent newydd eu gorchfygu gan Rufain, y cyfrifiad cyffredinol o'r trigolion oedd y mwyaf anmhoblogaidd. Y mae'r cyfrifiad hwn bob amser yn destyn o syndod i'r bobloedd hyny nad ydynt gyfarwydd a llywodraethau mawr canolog, ac yr oedd yn gas-beth arbenig yn ngolwg yr Iddewon. Mor foreu ag amser Dafydd, yr ydym yn cael yr ystadegau hyn yn peri cynhyrfiadau cyffredinol ac yn enyn bygythiadau'r proffwydi. Y cyfrifiad, mewn gwirionedd oedd sylfaen y trethi; ac yr oedd y trethi, yn ngolwg yr offeiriaid a'u dilynwyr, yn ymylu ar anuwioldeb. Yr oedd arian y coffrau cyhoeddus yn cael ei ystyried fel lladrad. Dangosodd y cyfrifiad orchymynwyd gan Quirinius (y flwyddyn 6 o'r cyfnod Cristnogol) y syniad hyn yn dra eglur, a pharodd gynhwrf nid bychan. Torodd mudiad allan yn nhalaethau'r gogledd. Enynwyd yr hyn a dorodd allan yn wrthryfel agored, gan un Judas, o dref Gamala, ar lan ddwyreiniol môr Tiberias, ac un arall o'r enw Sadoc, Pharisead, gwyr a wadent gyfreithlondeb y trethi; a chawsant lawer iawn o ddilynwyr. Athrawiaethau sylfaenol y rhai'n oedd na ddylid galw neb yn feistr ond Duw; a fod rhyddid yn fwy nag einioes. Y mae'n amlwg fod Judas yn ben ar sect Galileaidd, yr hon oedd yn agos a bod yn blaid wleidyddol. Rhodd Coponius, y goruchwyliwr, derfyn ar gynhwrf y Gauloniaid, ond parhaodd yr olaf, sef eiddo Judas o Gamala a Sadoc y Pharisead i hau eu syniadau o dan wahanol arweinwyr. O dan Menheim, mab y sylfaenydd, ac un Eleazer, perthynas iddo, cawn hwy yn dra phrysur yn ymdrechfeydd olaf yr Iddewon yn erbyn y Rhufeiniaid. Efallai fod Iesu wedi gweled y Judas hwn, oedd a'i syniad am chwyldroad Iddewig mor wahanol i'w eiddo ef; fodd bynag gwyddai am ei athrawiaethau, a thebyg yw mai fel gwrthdystiad yn erbyn ei gyfeiliornad y darfu iddo lefaru ei wireb am geiniog Cesar. Cymerodd Iesu, gyda doethineb pell o'r un gwrthryfelgarwch, wers oddiwrth ei flaenorydd, a breuddwydiodd am deyrnas wahanol a gwaredigaeth arall.

Yr oedd Galilea yn fath o ffwrnes enfawr, lle y cyd-ymferwai yr elfenau mwyaf cythryblus ac amrywiol. Rhyw ddibrisdod rhyfeddol am fywyd, neu yn hytrach rhyw awch am farwolaeth, oedd canlyniad y cythrwfl hwn. Nid yw profiad byth o

ddim pwys yn symudiadau mawrion penboethiaid. Yn Algeria, er engraifft, fyth oddiar yr amser y meddianwyd y wlad gan y Ffrancod, cyfyd bob gwanwyn bersonau ysprydoledig, a dystiant eu huuain yn anabl i gael eu clwyfo gan neb, a'u bod yn anfonedig gan Dduw i ymlid yr anghredinwyr o'r tir; y flwyddyn ddilynol, bydd eu marwolaeth wedi myned yn anghof, a chyfyd ereill yn eu lle a'u ffydd mor ddiysgog ag erioed. Er fod yr iau Rufeinig yn dra throm, eto caniateid llawer o ryddid yn yr ymherodraeth, ac nid ymyrai lawer mewn pethau bychain. Er fod y llywodraeth yn gref ac yn barod i roddi ei throed ar bob gwrthryfel, eto nid oedd megys y pwerau hyny sydd ag athrawiaeth ganddynt i'w hamddiffyn. Gadawai i bethau fyned yn y blaen hyd nes y delai'r amser i roddi dyrnod drom. Yn ei holl deithiau oddiamgylch y wlad, nid oes hanes fod Iesu wedi cyfarfod rhwystr o un math ar ddwylaw swyddogion y Gyfraith. Yr oedd y rhyddid hwn, ac yn enwedig y dedwyddwch a fwynhai Galilea o fod yn rhydd i raddau mawr oddiwrth goegddysgeidiaeth y Phariseaid, yn gwneud y wlad yn llawer rhagorach na Jerusalem. Yn Galilea yr oedd y chwyldroad, hyny yw, dyfodiad y Messiah yn peri cynhwrf yn mhob bron. Credai dynion eu bod ar drothwy adfywiad mawr; yr oedd yr Ysgrythyr, drwy gael ei wyrdroi mewn amrywiol ffyrdd, yn cael ei osod yn sail i'r gobeithion mwyaf rhamantus. Yn mhob llinell o ysgrifeniadau'r Hen Destament, gwelid addewid sicr, ac hyd yn oed amlinelliad amlwg o deyrnasiad y dyfodol, y deyrnas oedd i ddwyn tangnefedd i'r byd ac i roddi ei sêl yn dragwyddol ar weithrediadau Duw. Bu'r rhaniad hwn i ddwy blaid oeddynt wrthgyferbyniol mewn amcan ac yspryd, yn ffynonello gryfder bob amser i'r genedl Hebreig mewn ystyr foesol.

Dylai pob cenedl sydd wedi ei galw i genhadaeth fawr bob amser fod yn fyd bychan cyflawn ynddi ei hun, gan gau yn ei mynwes ddau begwn gwrthgyferbyniol. Yn ngwlad Groeg, ychydig filldiroedd y naill oddiwrth y llall, gwelwn Sparta ac Athen, oeddynt i lygad yr anghraffus yn hollol wahanol y naill i'r llall, ond mewn gwirionedd yn ddwy chwaer yn cydymgeisio, ac yn hollol angenrheidiol i'w gilydd. Yr oedd yr un peth yn wir am Judea. Ar un olwg yr oedd ei dadblygiad yn llai disglaer nag eiddo Jerusalem, eto bu dadblygiad y gogledd yn llawer mwy ffrwythlawn; oddiyno yr hanodd gweithiau mwyaf byw y bobl Iddewig. Y mae rhyw brinder cydymdeimlad â natur, yn ymylu weithiau ar sychder, ar gulni, ar ffyrnigrwydd, wedi gosod ei nod ar weithiau a hanant o Jerusalem, gan roddi iddynt rith o fawredd, sydd er hyny yn brudd, yn ddifywyd, ac yn taro yn erbyn y teimlad.

Gyda'i doctoriaid dwys-drymaidd, ei chanonyddion, ei gwyr defosiynol gwenieithus ond chwerw, ni orchfygasai Jerusalem ddynoliaeth. Y Gogledd ddarfu roddi i'r byd y Sulameës syml ei chalon, y wraig o Ganaan ddiymhongar, y gariadus Fagdalen, y tad-maeth Joseph, a'r Forwyn Fair. Y Gogledd yn unig a rodd fod i Gristionogaeth. O'r ochr arall, rhandir wir frodorol Iddewaeth ystyfnigyw Jerusalem, wedi ei sefydlu gan y Phariseaid, ei sefydlu gan y Talmud; ac y mae wedi dyfod i lawr drwy y canol-oesoedd i'n hamser ni. Y mae godidowgrwydd natur wedi cynorthwyo i gynyrchu yr ysbryd llai caled-falch hwn, y duedd hon, llai chwerw a llai tueddol i Undduwiaeth; a cheinder anian, mi fentraf ddweyd, sydd wedi rhoddi swyn ac hudoledd ar holl freuddwydion Galilea. Y wlad fwyaf trist yn y byd, efallai, yw'r hon a gylchyna ddinas Jerusalem. I'r gwrthwyneb, gwlad werdd yw Galilea, mangre tra chysgodol a llon, gwir gartref cân y caniadau. Yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill gorchuddir y llawr gan flodau, a'u lliwiau yn anghymarol yn eu hamrywiaeth. Y mae'r anifeiliaid yn fychain; ond yn hynod dyner a dof. Durturod mwynaidd a bywiog,

mor ysgafn fel na phlyg y gawnen tan eu traed, ehedyddion copaog mor ddiofn nes anturio braidd dan draed y teithiwr, crwbanau'r afon, tyner a byw eu llygaid, a'r creyr urddasol a gwylaidd; y maent oll yn taflu ymaith bob braw, gan ganiatau i ddyn ddynesu atynt, yn wir, braidd nas galwant am dano yn eu ffyrdd eu hunain. Ni wna'r mynyddau mewn unrhyw wlad yn y byd ledu eu mynwesau gyda chymaint swyn, na chynyrchu meddyliau mor aruchel. Ymddengys fod Iesu yn eu caru gydag angerddoldeb arbenig. Ar benau'r mynyddoedd y cyflawnodd y gweithredoedd mwyaf pwysig yn ystod ei yrfa ddwyfol; yno y cafodd fwyaf o ysbrydoliaeth; yno y cafodd lawer ymgom ddirgel gyda'r hen broffwydi, ac yno y dadguddiwyd ei weddnewidiad i lygaid ei ddisgyblion. Er fod y wlad swynol hon, yn amser Iesu yn orlawn o gysur a llawenydd, erbyn heddyw y mae llaw Islam wedi ei thylodi, a gwneud bywyd dyn yn alarus a thywyll, er fod yr hyn na fedr llaw ddynol ei gyffwrdd yn aros yn llon, yn dirion a thyner. Cai'r Galileaid y gair o fod yn egniol, gwrol a llafurus. Ag eithrio Tiberias, a adeiladwyd gan Antipas er anrhydedd Tiberius (tua'r flwyddyn 15) yn y dull Rhufeinig, ni feddai Galilea drefydd mawrion. Eto yr oedd y wlad yn dra phoblog, yn llawn trefi bychain, a phentrefi mawrion, ac yn cael ei chwrteithio'n fedrus yn mhob man. Yn nghanol y malurion a erys o'r gogoniant cynhenid, teimlir dylanwad pobl amaethyddol, heb lawer o duedd at gelf, heb fawr hoffder at foethau, ac yn ddiystyr o geinder ffurf—yn byw yn hollol i'w delfryd mewnol eu hunain. Yr oedd y tir yn orlawn o ffrydiau croew a ffrwythau per; yr oedd tyddynod mawrion yn cael eu cysgodi gan winwydd a choed ffigys; a'r gerddi yn gyfoethog o goed afalau, coed y gneuen ffreinig, a phomgranadau. Yr oedd y gwin yn rhagorol, a barnu oddiwrth yr hyn a gynyrchir eto gan yr Iddewon yn Safed; ac yfid llawer o hono. Nid oedd y bywyd cysurus a boddlongar hwn yn ymylu ar fateroldeb garw ein gwladwyr ni—er enghraifft, llawenydd cwrs pobl rwgnachlyd Normandi, neu ddigrifwch trymaidd trigolion yr Iseldiroedd. Bywyd llawn ysbrydolrwydd ydoedd, yn hoffi mewn breuddwydion hudolus, mewn math o farddoniaeth gyfrin a wnai ddaear a nefoedd ymdoddi i'w gilydd. Gadewch Ioan Fedyddiwr yn niffaethwch Judea, i bregethu Edifeirwch yn ddibaid, i fyw ar locustiaid a mel gwyllt yn nghwmni bwystfilod yr anialwch! Paham y myn cymdeithion y priodfab ymprydio tra bo'r priodfab gyda hwy? Y mae llawenydd yn rhan o deyrnas Dduw. Onid merch yr isel o galon, a gwyr ewyllys da ydyw hi? Y mae holl hanes boreuol Cristionogaeth wedi dyfod fel hyn yn fath o fugeilgerdd felus. Messiah yn y wledd briodas—y wraig anniwair a Zaccheus dda yn cael eu gwahodd i'r un wledd,—sylfaenwyr teyrnas nefoedd yn ffurfio'n fath o orymdaith briodasol—dyna'r hyn y mae Galilea wedi anturio i'w gynyg a gwneud i'r byd ei dderbyn. Y mae Groeg wedi tynu llun y bywyd dynol yn ei delwau marmor a barddoniaeth ber, ond beunydd heb y gorwelion porffor a'r ffurfafenau amryliw pell. Nid oes yma fynor na cherfwyr rhagorol, nac iaith hudolus a chywrain. Ond y mae Galilea wedi creu y delfryd uwchaf i enaid y bobl: canys y tu ol i'w hanes rhyfedd y penderfynir tynged dynoliaeth, a'r goleuni ar ei darlun yw haul teyrnas Dduw. Yn nghanol yr amgylchynoedd hyfryd hyn y tyfodd Iesu, ac y bu fyw. O'i febyd cymerai daith bron bob blwyddyn i Jerusalem, i'r gwleddoedd a gynhelid yno. Yr oedd y pererindod hwn yn llawn difrifoldeb swynol i'r Iddewon. Cenid salmau neillduol ar y ffordd; a theithiai'r teuluoedd yn nghyd dros fron a dyffryn a dol, a'u golygon i gyd ar ysblander Jerusalem bell, a seremoniau sobr y llysoedd cysegredig, yn llawn o'r llawenydd a gaiff brodyr o drigo yn nghyd. Y llwybr dramwyai'r Iesu oedd yr un a

gerddir heddyw, sef heibio Ginæa a Sichem. Lluddiedig iawn yw'r daith o Sichem i Jerusalem. Ond y mae broydd Siloh a Bethel, yn agos i ba rai y teithir yn llawn o bob dyddordeb. Lle pruddaidd a swynol yw Ain-el-Haramie, lle yr arosir yn olaf ar y daith, ac anaml yw'r manau ar y ddaear a adawant gyffelyb argraff ar y cof. Y mae'r dyffryn yn gul a thywyll; dyfera dyfroedd duon o'r creigiau sydd o gylch, a beddrodau lawer wedi eu naddu yn eu mynwesau. Hwn, mi dybiaf, yw Dyffryn Baca, neu ddyffryn wylofain (Salm lxxxiv.), ac y mae wedi dod, drwy gyfrwng cyfriniaeth dyner a phrudd y canoloesoedd, yn arlun bywyd dyn. Yforu, yn ieuenctyd y dydd, byddis yn Jerusalem, ac y mae'r disgwyliad hwn yn dal i fyny obaith y teithwyr, gan wneud y nos yn fer a chwsg yn ysgafn. Yr oedd y pererindodau hyn, lle y cydgyfarfyddai'r genedl, gan gyfnewid syniadau, bron bob amser yn ganolbwynt rhyw ferw mawr; a gosodid Iesu, yn y teithiau hyn, mewn cyffyrddiad ag enaid y bobl, gan greu yn ei galon yn foreu, mae'n ddiau, gasineb at swyddogion Iddewaeth. Yn gynar yn ei oes bu'r diffaethwch hefyd yr ysgol i Iesu, a mynych yr arosai am amser maith yno. Ond nid ei Dduw ef a gai yn y diffaethwch. Yn hytrach Duw Job ydoedd, llym ac ofnadwy, na rydd gyfrif o'i weithredoedd i neb dyn. Weithiau delai Satan i'w demtio. Yna dychwelai i Galilea, gwlad ei galon, ac yno unwaith eto cai afael yn ei Dad nefol, yn nghanol y tyrau plant a gwragedd a ddisgwylient, gyda llawenydd yn eu heneidiau, a chaneuon engyl yn eu calonau, am iachawdwriaeth pobl Israel.

BREINTIAU DYNES.

Er pan gyhoeddodd Thomas Paine ei lyfr enwog, "Breintiau Dyn" yn y flwyddyn 1791-2 'rydym wedi clywed llawer o son am iawnderau a hawliau dyn, ac ar y cyfan nid oes ond daioni wedi deilliaw o'r mudiad i geisio sicrhau y breintiau hyn. Yn anffodus, fodd bynag, mae'r rhan fwyaf o'r rhai ydynt wedi bod yn pleidio'r achos da hwn wedi anghofio, ac yn gwneud hyny i raddau o hyd, fod y gair dyn yn ei ystyr eangaf yn cynwys dynes hefyd; ac mewn ymarfer os nad mewn myfyrdod maent fel rheol wedi cyfyngu eu hymdrechion bron yn gyfangwbl tuag at sicrhau breintiau y gwryw yn unig—arglwydd y greadigaeth fel y cara llawer o'r rhyw ei alw. Nid yn unig maent wedi gofalu am danynt eu hunain yn unig, ond oddiar amser Paine hyd yn awr (a chyn hyny, wrth gwrs), mae dynion fel rheol wedi gwrthwynebu pob mudiad bron er rhyddhau menyw o'r caethiwed hir mae wedi bod ynddo ac yn para i ryw raddau o hyd, wedi gwrthwynebu bron bob ymgais ar ran gwir garwyr rhyddid a chyfiawnder i sicrhau eu hiawnderau a'u hawliau dyladwy i ddynes yn ogystal ag i ddyn; ac yn hyn yn naturiol maent wedi cael cynorthwy pob tuedd geidwadol yn y boblogaeth.

Rhyfedd fod dynion ddangosasant gymaint brwdfrydedd dros eu hiawnderau eu hunain ac a wnaethant gymaint drostynt wedi bod mor ddall i gyflwr gwaeth—anghymarol waeth eu chwiorydd a pheth rhyfeddach fyth fod llawer yn para felly hyd y dydd hwn. Ond y gwir yw yr edrychid ar fenyw fel creadur israddol i ddyn, fel rhywbeth rhwng

dyn ac anifail, ac y gwneir hyny, yn anffodus, gan lawer heddyw eto, mewn ymarferiad beth bynag, ac fel canlyniad nid yw lawer o syndod efallai, na thelir sylw mawr iddi yn y byd politicaidd a chymdeithasol ac na wneir ond ychydig i godi ei sefyllfa—yn y cartref, yn yr eglwys, yn y wladwriaeth, yn ngolwg y gyfraith ac arferion gwlad—i'r hyn ddylai fod, h.y., cydraddol ag eiddo dyn.

Ond er mor bell yn ol ag amser Tom Paine y mae yna wedi codi yn awr ac yn y man brophwydi, yn ddynion a benywod, i gyhoeddi'r genadwri o gydraddoldeb a chyfiawnder rhwng dyn a dynes; ac er nad ydynt hyd yn ddiweddar ond megys "llef un yn llefain yn y diffaethwch" yn galw ar ddynion i "barotoi ffordd yr Arglwydd ac i wneud yn uniawn ei lwybrau ef," eto, nid yw eu gwaith wedi bod yn ofer, eithr yn hytrach iddynt hwy yr ydym yn ddyledus am y safle ffafriol y mae'r mudiad ynddo yn bresenol. Hwy oeddynt flaen-gad y fyddin sydd erbyn heddyw wedi tyfu mor lluosog. Yn eu plith teilynga dau enw sylw neillduol, Mary Wollstonecraft, am mai hi trwy ei saflyfr, *Vindication of the Rights of Women* (1792), oedd y ddynes gyntaf o bwys i sefyll i fyny dros freintiau benyw, a John Stuart Mill, yr athronydd enwog, a gyhoeddodd yn 1855 ei lyfr safonol, *The Subjection of Women* (y dylai pob gwrthwynebwr y mudiad yn enwedig ei ddarllen) ac a etholwyd ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn aelod seneddol fel cefnogwr gwystledig yr etholfraint i ferched. Yn mhlith eraill o bwys a gefnogent y mudiad yn y ganrif ddiweddaf gellir enwi Richard Cobden, Harriet a Dr. Martineau, Benjamin Disraeli, Frances Power Cobbe ac Anna Swanwick, ac nid yw y rhai hyn ond nifer fechan iawn o'r miloedd lawer o wragedd a gwyr ydynt mewn gwahanol ffyrdd wedi aberthu llawer er mwyn yr achos mawr a chysegredig yma.

Meddylia llawer, neu proffesant feddwl hyny, mai dim ond rhyw nifer fechan o ferched a gwragedd anfoddog ar eu cyflwr sydd am gael yr etholfraint, ac mai dim ond er megys doe yw'r holl fudiad. Efallai y bydd i'r bobl yma agor eu llygaid ychydig pan ddeallant fod ei gychwyniad yn myn'd yn ol mor bell a'r ddeunawfed ganrif, ei fod wedi derbyn nerth o'r newydd trwy Ddeddf Ddiwygiadol 1832, ei fod yn allu mwy neu lai yn Nhy'r Cyffredin er 1865, fod sawl mesur i'r perwyl yma wedi pasio ei ail ddarlleniad, fod deisebau yn cynwys ar gyfartaledd 200,000 o enwau y flwyddyn wedi eu danfon i Dy'r Cyffredin o 1868 hyd 1879, tra yn 1896 y cyflwynwyd deisyfiad wedi ei llawnodi gan 257,000 o fenywod i aelodau'r Ty; ac yn mhellach fod pob undeb llafur, cynwysedig o ferched trwy'r wlad, ac nid y rhai sydd yn gweithio a'u dwylaw yn unig, wedi datgan eu hunain yn gryf dros eu hawliau a'u hiawnderau. Nis gall felly fod esgus gan neb i ddweyd nad yw'r merched yn ceisio nac yn gofyn am yr etholfraint. Ac hyd yn oed pe na byddai un o honynt yn ceisio'r hawl i bleidleisio ar yr un telerau a dynion, fyddai yn unrhyw reswm dros beidio rhoddi iddynt eu hiawnderau? I'm tyb i, ni fyddai, am y dylid gwneud cyfiawnder a hwynt, pa un a fyddent yn dewis hyny ai peidio, ni fyddai raid i neb ddefnyddio'r bleidlais os na fyddai yn dewis ac felly ni wneid cam a neb. Mae yna lawer o ddynion na thywyllant byth ddrws y bwth pleidleisio, ond ni ddywed neb, ar a wn, na ddylai dynion gael yr etholfraint oherwydd hyny. Yr un fath yn union gyda'r menywod; rhodder y gallu iddynt i fod yn wir ddinasyddion, ac nid haner caethweision fel yn bresenol, a gadawer rhyddid i bwy bynag na fyddo yn dewis defnyddio'r fraint i beidio gwneud hyny. Tebyg y byddai yna rai na wnaent ddefnydd o'u gallu newydd ar unwaith, oblegyd dysg hanes ni fod y fath beth yn bosibl a bod y caethion yn dod i garu eu rhwymau gydag amser, ond ni hona neb na ddylid eu rhyddhau oherwydd hyny.

Gadewch ini yn awr gael gweld ar bwy dir yr hawlir yr etholfraint i ferched. Yn y lle cyntaf, debygaf. ar dir eang uniondeb a chyfiawnder, Yn y capel neu'r eglwys ar y Sul proffeswn oll fod yn gydradd, dywedwn nad yw Duw yn derbyn wyneb, nad yw Ef yn edrych ar y gwahaniaethau bychain godwn ni i fyny rhwng dyn a dyn (yn ystyr eangaf y gair), nad oes caeth na rhydd, tlawd na chyfoethog, benyw na gwryw iddo Ef, ond ein bod oll yn blant i'r un Tad (a Mam hefyd, gadawer i mi ychwanegu) nefol ac yn frodyr a chwiorydd i'n gilydd. Ond mor anghyson ydym a ni ein hunain! Wedi dod allan o'r addoldy anghofiwn yn ymddangosiadol ein holl broffesiadau; ni welwn y cardotyn ar ymyl y ffordd, awn o'r tu arall heibio i bwy bynag sydd wedi gwyro y mymryn lleiaf oddiwrth lythyren y gyfraith wladol neu foesol, neu sydd efallai wedi tori rhai o ddeddfau caeth Mrs. Grundy, cadwn oddeutu ddeuddeg miliwn o bobl yn ein gwlad yn nghanol ei llawnder mewn dygn dlodi, gadawn i lawer farw yn unig oherwydd angenrheidiau cyntaf y corph, a gomeddwn i'n mamau, i'n gwragedd, i'n hanwyliaid, i'n chwiorydd, i'r rhai, mewn gair, garwn fwyaf, fel rheol, yn ein bywyd cyfrin ac anghyhoedd, gomeddwn iddynt hawliau a breiniau cyntaf y bywyd cyhoeddus, cadwn hwy mewn sefyllfa israddol i ni, a thrwy eu hatal i fod yn ddinasyddion, dywedwn mewn effaith nad ydynt ond bodau israddol i ni, digon da i ofalu am danom, i gadw ein cartrefi, i ddwyn ac i fagu ein plant, a bod yn wasanaethgar ac ufudd i ni yn mhob peth, ond nid i gyfranogi a ni yn mreintiau uwchaf ein bywyd cyhoeddus. Nid wyf am ddweyd nad oes neb o honom, neb o'r rhyw galetaf, wedi codi yn uwch na hyn; y mae yna eithriadau lawer a chynyddant, dioich i'r nefoedd, o ddydd i ddydd, ond dyna fel yr edrych y dyn cyffredin ar fenyw, fel rhyw fath o degan i'w ddifyru neu fath o greadur isryw i'w wasanaethu, ac wedi ei chreu er ei fwyn ef. Gwn y protestia llawer o'r cyfryw yn erbyn y desgrifiad yma o'u golygiadau ar ein chwiorydd, ond ofer iddynt wneud hyny cyhyd ag y byddo eu hymddygiad tuag atynt beth yw yn bresenol, eu gweithredoedd eu hunain a'u condemniant ac nid neb arall. Sicr yw mai gofid yw i'r ysgrifenydd i orfod traethu ei farn yn y modd yma, ond gwell gwynebu ffeithiau yn wrol na byw mewn byd o ffug ac ansylweddoldeb.

Pwy reswm all fod dros beidio estyn yr etholfraint i ferched? Esgusodion fil a mwy glywir bob dydd, 'does dim haws na chael esgus dros bob cwrs o ymarweddiad, ond am un rheswm gwirioneddol does yna yr un rheswm i'w gael. Mae menyw yn greadur rhesymol fel dyn, yn meddu ar allu meddyliol, moesol a chrefyddol tebyg, ac ar allu corfforol ychydig llai, cyflawna ddyledswyddau llawn mor bwysig yn y teulu a'r wladwriaeth ag eiddo dyn, rhaid iddi ufuddhau cyfreithiau'r wlad heb un rhan yn eu gwneuthur na'u gweinyddu, ac y mae llawn cymaint o angen y bleidlais arni ag sydd ar ddyn, yn wir, mwy yn bresenol pan mae cymaint o gyfreithiau ein gwlad yn anheg iddi. Heblaw fod cyfiawnder yn gofyn hyny, hawlia benywod yr etholfraint am resymau tebyg i'r canlynol:—1. Am nas gofelir am les uwchaf un genedl, rhyw na dosbarth os na fydd yr unrhyw yn cael ei gynrychioli yn uniongyrchol yn senedd ei wlad. Mae hyn mor hunandystiol ag un o wirebau Euclid. 2. Am fod gallu gwleidyddol i'r gweithiwr, ei allu fel dinesydd, yn dal perthynas i'w allu i enill bara a chaws Trwy y gallu yma gall basio mesurau trwy y senedd (neu achosi iddynt gael eu pasio), y rhai, er na chodant ei gyflog yn uniongyrchol, a wnant lawer yn anuniongyrchol tuag athyny, megys trwy wella y cyflyrau a'r telerau o dan ba rai y rhaid iddo weithio, trwy leihau ei oriau gwaith, ac yn fwy na dim, efallai, trwy y wers a ddysg iddo mai mewn undeb mae nerth, ac a wna iddo uno a'i gydweithwyr i ffurfio undeb llafur. Fel canlyniad hyn oll mae cyflogau

gweithwyr wedi codi yn raddol yn ystod y 50 mlynedd diweddaf, tra nad yw cyflogau menywod ar gyfartaledd wedi codi nemawr os dim. 3. Gorfodir menywod i dalu trethi, er na chynrychiolir hwy yn y senedd, ac mae'r blaid Ryddfrydig erioed wedi arfer dweyd mai dim ond gormeslywodraeth orfoda ddyn i dalu trethi heb roddi iddo yr hawl i gael ei gynrychioli hefyd. Paham na weithreda'r blaid enwog hono ar un o'i hegwyddorion sylfaenol yn awr pan y mae cyfleusdra ganddi? Ai tybed nad oes ofn ar y llywodraeth bresenol gael ei galw yn llywodraeth sylfaenedig ar ormes? 4. Rhaid i fenywod ufuddhau cyfreithiau'r wlad a dylasent felly gael llais yn eu gwneuthur a'u gweinyddu; nid yw hyn ond rhesymol a chyfiawn. 5. Ar ddeddflyfr ein gwlad ceir llawer o gyfreithiau ydynt yn anghyfiawn i'r eithaf i'r merched a'r gwragedd, megys y ddeddf perthynol i ysgariad, ac y mae deddfau anysgrifenedig cymdeithas yr un mor anghyfiawn i'r merched mewn perthynas i droseddu lle mae bai'r dyn lawn cymaint os nad mwy nag eiddo'r ferch. Hawlia menywod yr etholfraint er symud y cyfreithiau annheg yma oddiar deddflyfr y wlad ac felly yn raddol i newid safon cymdeithas wrth farnu cwestiynau o'r fath. 6. Sonir yn bresenol am basio llawer o ddeddfau newyddion gyffyrddent yn agos a menywod, megys deddfau llafur, deddfau addysg, deddfau amrywiol perthynol i blant a gofal am yr hen ac eraill, ac ni ellir trefnu a phenderfynu y cwestiynau yma i foddlonrwydd os gadewir allan lais y fam a llais benyw fel cyfangorph. 7. Mae swyddi goreu ac uwchaf y wlad mewn gwahanol alwadau, megys y gyfraith a'r eglwys (gyda'r eithriad o'n henwad bychan ni) yn gauedig i fenywod, yn unig am mai menywod ydynt, ac mewn galwadau eraill lle y cant dderbyniad yn awr telir iddynt gyflog lawer llai nag eiddo dynion am yn gywir yr un gwaith. Nid yw dynion wedi dirymu'r camwri yma nac yn edrych yn debyg o wneud hyny yn fuan, felly hawlia'r merched y bleidlais er amddiffyn eu hunain. 8. Cyfaddefir gan ddoethion daear fod barn y ddau ryw gyda'u gilydd yn well na barn un ar wahan, ac felly yn naturiol pob deddfwriaeth sylfaenedig ar y farn yma. 9. Mae gwleidyddiaeth yn barod wedi treiddio i'r cartref, felly rhaid i'r fam a'r ferch gymeryd rhan mewn gwleidyddiaeth, yn enwedig er gallu dwyn y plant i fyny mewn amgyffrediad deallus o'u gwlad a'r breintiau sydd yn eu meddiant. Rhaid i fenyw, fel dyn, gael rhyw ddyddordeb tuallan i'w chartref; daw felly yn well gwraig ac yn well mam. 10. Lle bynag mae menywod wedi cael yr etholfraint, megys yn Awstralia a New Zealand, nid oes ond daioni wedi deilliaw a chynydd mwy cyflym wedi ei wneud mewn pasio gwelliantau angenrheidiol. Hyderaf y bydd i'r sylwadau yma, os na fydd iddynt argyhoeddi'r darllenydd o iawnder hawl y merched i'r etholfraint, i wneud iddo beth bynag i roi yr ystyriaeth lwyraf i'r cwestiwn fel un gwir deilwng o sylw ac un na ellir mwyach ei esgeuluso.

X.Y.Z.

Yn ddall ni rodia dim ei daith,
Ni chollir dim un bywyd byth,
Ni thaflir dim i ddamniol nyth
Pan ddygo Duw i ben Ei waith.—*Tennyson.*

CONGL YR AWEN.

SALM-GOFFA

Y Diweddar a'r parchus Dad, Thomas Thomas, Y.H., Pantydefaid.

Yn ei henaint,—llawn yni,—ehedodd
Ar edyn goleuni,
I haul fryn anfarwol fri—
I loew fyd i ail fedi.

Hygar wron gwirionedd,—a gododd
I gadair anrhydedd ;
Profodd ef flas tangnefedd,
A hir oes, dan wynder hedd.

Hen Dad, a chawr o Undodwr,—yn
Wrth deulu'r Gwaredwr ; [dal
Yn wir goethawl bregethwr,—
Hawliai'r dyn, nes wylo'r dwr.

Mawr ei glod a'i wybodaeth,—a'i
I wella dynoliaeth ; ['wyllys
Dawn o Dduw ar dân a ddaeth,
I swyno pob gwasanaeth.

Addolai fel gwir feddyliwr,—o bawb
Yn ben ymresymwr ;
O'i benod yn esboniwr,
Oedd a'i gais i foddio gwr.

Dyn o fri fu'n ddifrifol,—yn ei lef
Ar lwyfan crefyddol ;
Hyd ei fedd yn sylweddol,—
Yn gu iawn,—mae'n wag o'i ol.

Trwy fyw lef Pantydefaid,—do, cod-
Cedyrn yr Undodiaid ; [wyd
Folianus—ddyfal enaid,
Drwsiai ei ble dros ei blaid.

Câr golau, cywir ei galon,—o Dduw,
I gyd-ddyn yn Gristion ;
Am oes hir bydd yma son,
A'n dwg i Geredigion.

Gwn i hwn, fel ynad hedd,—i weini
Ei dyner drugaredd,
Yn dawel a diduedd,
Yn Llandyssul—llon'd ei sedd.

Arddunol, rhydd ei anian,—cawr o
Yrai 'i dda i bobman ; [ddysg
Dyn dewr,—i'r wlad yn darian,
Athraw gwych, a thŵr y gwan.

Ei weddw, a'i ferch addien—a wylant
Yn nhalaeth yr ywen ;
Eu llywydd aeth yn llawen,
Uwch dolef, i gartref gwên.

Ffarwel enyd, aeth hoff wron—i gyd
Gwrdd a'i hen gyfoedion ;
'E gyfyd hen adgofion
O lên ein brawd, lona'n bron.

Trebanos. D.W.D., (Brynfardd).

THOMAS THOMAS, Was ei Ion,—ym-
Mae galar yn Seion ; [giliodd,—
Er mor bêr ei dyner dôn
Eofn gawr fu ein gwron.

Oedd gyfaill hawdd ei gofio ;—un
O hoenus ac effro [hynod
Oedd ein brawd ; ni ddaw i'n bro
Un o'i ail—iawn yw wylo.

Prydydd ffraeth odiaeth ydoedd ;—
Fe lonai laweroedd ; [efo'i lên
Fel Gweinidog, enwog oedd,
Do'i â gwin da i gannoedd.

Trwy 'i fawr ddysg bu ei ysgol—i
Lawer yn fendithiol ; [luoedd
Porthi'r ŵyn ar dwyn a dôl
Wnaeth yn hir yn wir wrol.

Ein mirain dad!—yn moreu'n dydd—
Heb awel aflonydd, [buom
Lawer tro, yn rhodio 'n rhydd,
O un galon a'n gilydd.

Er colli'm câr gwâr gorau—ei enw
Yn fawr am flynyddau ; [fydd
I ryw fan eir a finau
Ar ei ol i'r bythol bau.

DEWI HEFIN.

ENGLYNION COFFA

I'r diweddar Mr. Thomas Jones, Arwerthwr, Cwrtnewydd.

Cwrtnewydd deg geir tan nudd du,—
ger bedd
Gwr o barch yn plygu ;
Colli ei chawr call a chu
Bair wneud i'w bron i waedu.

Iones hygaraf! nid segurwr—oedd
Wir ddyfal arwerthwr ; [ef,
O foes, yn wych fasnachwr,—
Ef i'n bro fad fu'n brif wr.

Gwr didwyll o'i gryd ydoedd ;—un
a'i gred
Yn gryf mewn *gweithredoedd ;*
Da, dewr iawn Undodwr oedd ;
A hael wr i laweroedd.

Gloes a briw i Eglwys y Bryn—rho 'i
A'i tharian i'r dyffryn ; [thŵr
Ond deil ei gof hudol gwyn
At rinwedd ter i'w henyn.

CEREDIG.

Niwed i Cwrtnewydd—a thyf hiraeth
O farw 'i harwerthydd,
A gwlad fawr yn gweled fydd
Yn eisiau 'i chymwynasydd.

Diweniaeth, brwd ei anian,—gwar,
gonest,
Gwir gynil,—heb hunan,
I neithiwr oes ; gwnaeth ei ran
O'i wledig fasnach lydan.

Didwyll, a chawr Undodol—o ysbryd
Ac asbri meddyliol :
O'i hyf rodiad rhyddfrydol,
Oedd dra anhawdd ei droi 'nol.

Gwr aeth er ei ragoriaethau — a'i
Yn fud dan law angau ; [lwydd
Ond bedd—ar ei rinweddau,
Ei dywell gol nid all gau.

HEN GYDNABOD.

DEIGRYN AR FEDD

Mrs. Margaret Griffiths, Birdlip, Llandyssul, a fu farw Mawrth 27ain, 1908.

Nid galar ffug, ond deigryn dwys
A ddel i foddi'm llygaid prudd,
Wrth feddwl am y creulon ddydd
A'th rodd yn gudd o dan y gwys.

Wrth feddwl am hirnosau maith
A dreuliais ar dy aelwyd lan,
A'th fron yn serchog fel dy dân,
Pa ryfedd troi o'm grudd yn llaith ?

Pwy fel tydi a haeddai gael
Holl flodau gwlad ar bridd ei bedd?
Pwy haedda'n fwy dragwyddol hedd
Paradwys wen, na'th enaid hael ?

Nid buan yr anghofir am
Yr ysbryd llawen tan dy fron,—
Y galon lawn, y llygad llon
Na fedrai oddef gweled cam.

Hun, anwyl fam, uwch cri a loes,
Lle'r huna ceraint pur i mi,
A gwylied engyl arnat ti
Yn mynwent unig Bwlchygroes.

"Yn Mwlchygroes" ? mi glywaf lef
Yn tori ar fy mewnol glust :
" Nid yno mae, anwyliaid trist,
Nid yno mae, ond yn y nef."

S.

PRIODAS.—Mawrth 13, yn Nghapel Rhydygwin, gan y gweinidiog, yn mhresenoldeb y Cofrestrydd, Mr. David Jones, Gofynachfawr, Llanarth, â Miss Jane Lloyd, Felindre uchaf.

MARWGOFION.

MEDI 9, yn 80 mlwydd oed, bu farw Margaret, anwyl briod William Thomas, Pantyronen, ger Llanwnen. Heblaw ei phriod, gadawodd un mab ac amryw chwiorydd i alaru ar ei hol. Caffed y priod oedranus bob dyddanwch posibl yn ystod y gweddill o'i daith. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Capelygroes dydd Iau canlynol, pan y daeth nifer liosog yn nghyd i dalu iddi y gymwynas olaf. Gweinyddwyd gan weinidog y lle.

IONAWR 30, yn 5 mis oed, Johnie, baban David a Rachel Edwards, Wern, Llanarth. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd yn y ty gan Mr. Williams, Llanarth ; yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins ; ar lan y bedd gan y Parch. T. A. Thomas.

CHWEFROR 24, yn bedwar mis oed, Evan Tom, baban Evan a Margaret Davies, Pantcochisaf, Talgareg. Claddwyd yr Iau canlynol yn Capelyfadfa a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

CHWEFROR 18, ar ol cystudd hir, yn 41 oed, Elizabeth, anwyl briod David Rees Davies, Prifathraw Ysgol y Cynghor, Cwrtnewydd. Claddwyd yn mynwent Capelybryn yn nghanol arwyddion amlwg o alar cyffredinol. Gadawodd ei phriod a phedwar o blant i alaru'n fwy na neb arall ar ei hol. Gwasanaethwyd ar yr achlysur trist gan y gweinidog. Yr oedd Mrs. Davies yn un a gerid ac a berchid yn fawr gan bawb a'i hadwaenai, ar gyfrif ei thymer fwyn, a'i hyspryd tangnefeddus a haelionus. Dymunem i'w phriod a'i phlant bob nerth angenrheidiol i ddal i fyny o dan eu hamddifadrwydd prudd. "Ystyr y perffaith, ac edrych ar yr uniawn ; canys diwedd y gwr hwnw fydd tangnefedd."

CHWEFROR 21, ar ol cystudd byr, John Evans, Clyngwyn, Dihewyd, gynt o Tanygraig, Llanfihangel-Ystrad, yn 67 mlwydd oed. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent Eglwys Dihewyd. Gwasanaethwyd a phregethwyd yn y ty gan y Parch. L. Williams, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan gurad y plwyf. Gadawodd ar ei ol ddau frawd a pherthynasau eraill, un o ba rai yw Mrs. Davies, Fronddu, Dihewyd.

CHWEFROR 26, yn 81 mlwydd oed, Sarah Davies, gwraig Jenkyn Davies, Belle Vue, Llanfihangel-Ystrad. Un o ardal Cwrtnewydd oedd yr ymadawedig yn enedigol, ac wedi symud yma ar ol iddi ymbriodi. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent eglwys Capelybryn. Gwasanaethwyd a phregethwyd yn y ty gan y Parch. L. Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. J. C. Owen, Ficer Ystrad, ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies. Gadawodd briod, un chwaer, a llysferch, a pherthynasau eraill ar ei hol.

CHWEFROR 27, wedi cystudd byr, yn 71 oed, Margaret Jones, Rhandir, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Alltyplaca, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Yr oedd ei phriod wedi ei rhagflaenu oddiar y 7fed o Ebrill ddiweddaf. Gadawodd naw o blant i alaru'n ddwys ar ei hol. Yr oedd wedi bod yn aelod selog o'r eglwys Gristionogol yn Alltyplaca er yn ieuanc, ac y mae ei symudiad yn galw'n uchel ar bawb sydd yn teimlo dyddordeb yn yr achos yno, i ddyblu eu diwydrwydd yn y gwaith o adeiladu'r eglwys mewn rhif a grasusau.

CHWEFROR 29, yn 5½ mis oed, Thomas Herbert, anwyl faban Wm. Henry Davies, 25, Bell St., Aberdar.

Er marw o'r baban,
Mae'r baban yn fyw ;
Y corff aeth i'r ddaear,
Yr enaid at Dduw.

MAWRTH 1, yn naw mis oed, Madlen, baban Joshua a Nancy

Davies, Gwaralltferdre, Talgareg. Claddwyd yr Iau canlynol yn Glynarthen. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. E. O. Jenkins, ac yn y capel a'r fynwent gan weinidog y lle.

MAWRTH 2, Mary Davies, Brynmaen, Cellan, yn 78 mlwydd oed. Gadawodd mewn galar ar ei hol briod a phlant. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Capel Erw. Gwasanaethwyd yn y ty gan weinidog Caeronen ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. Evan Evans, Llanbedr.

MAWRTH 11, wedi cystudd byr, yn 80 oed, Margaret Jones, Glyncoch, Llandyssul. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Gadawodd ei hunig ferch a'i phriod mewn galar dwys ar ei hol. Boed iddynt fodd i alaru'n gymedrol, ac i efelychu yr hyn oedd oreu yn ei chymeriad hi.

MAWRTH 12, bu farw Evan Williams, Red Lion, Cwrtnewydd, yn 93 mlwydd oed. Er wedi cyrhaedd oedran mawr, mwynhaodd iechyd da hyd o fewn i ychydig wythnosau i'w farwolaeth. Hanai o deulu Undodaidd; ac Undodwr oedd yntau—Undodwr Bedyddiedig. Am flynyddau bu yn fynychwr cymharol gyson o'r addoliad yn Nghapelygroes, yn benaf yn amser gweinidogaeth Mr. Thomas, o'r hwn yr oedd yn edmygydd mawr, ac i'r hwn yr oedd yn gyfaill gwresog. Gadawodd dri mab a chwe merch i alaru ar ei ol Hebryngwyd ei weddillion i fynwent Capelygroes dydd Llun gan dyrfa luosog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo wrth ddrws y ty gan y Parch. E. Phillips, Capel Seion.

MAWRTH 12, yn 60 oed, Mrs. Annie Cordelia Potter, anwyl briod Mr. G. W. Potter, Treforgan, ger Aberteifi, a merch i'r diweddar Mr. David Evans, Shop Tregroes. Cafodd yr ymadawedig ei chaethiwo gan afiechyd am flynyddoedd lawer, ond daliodd ei hyspryd yn gryf a siriol hyd y diwedd. Y dydd Llun canlynol gosodwyd yr hyn oedd farwol o honi i orwedd yn nghladdfa'r teulu yn Mhantydefaid. Ar y ffordd i fynu cynhaliwyd gwasanaeth yn eglwys y plwyf, a gwasanaethwyd wrth enau'r *vault* gan y Parch. Arthur Thomas. Gadawodd yr ymadawedig briod a saith o blant, dau frawd a chwaer mewn galar ar ei hol.

MAWRTH 15, Rachel Mary, merch John a Mary Evans, Soar, Dihewyd, yn wyth mis oed. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent eglwys Dihewyd. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. L. Williams, a phregethwyd yn yr eglwys gan gurad y plwyf.

MAWRTH 20, yn ddwy flwydd a haner oed, Tom Timothy, mab ieuanc Mr. a Mrs. Thomas, Gyfeile, Llandyssul. Claddwyd y dydd Mawrth canlynol yn mynwent Pantdefaid pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog, gyda chynorthwy y Parch. E. O. Jenkins. Cydymdeimlir yn fawr a'r rhieni yn eu profedigaeth chwerw a dirybudd; bydded iddynt gael eu cysuro gan eiriau Iesu, Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd.

MANION AC HANESION.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL.—Cymer le eleni, prydnawn Llun, Ebrill 13, am 5 o'r gloch yn y gwahanol gapelau. Disgwyliwn y bydd y plant yn gwybod eu gwaith yn dda eleni gan mai dim ond hwy sydd yn mhob ysgol yn parotoi ar gyfer yr arholiad. —*L. W., Ysg.*

Y CASGLIAD BLYNYDDOL AT ADRAN YR YSGOL SUL.—Mae yn ddyledus yn awr, a gobeithio y bydd i'r oll o'r ysgolion ei wneud ar unwaith, er mwyn gallu cyfarfod a'r treuliau yn nglŷn a'r Tystysgrifau a'r Gwersi. Mae y treuliau yn fawr eleni, a charem i'r ysgolion gofio hyny. Danfoner y

casgliadau i'r Trysorydd :—Mr. D. Saunders Davies, Commercial House, Felinfach, S.O., Cardiganshire.—*L. W., Ysg.*

ADRAN YR YSGOL SUL.—Deallaf fod rhai ysgolion wedi camddeall mewn perthynas i'r gwaith sydd i fod i Safonau I. a II. eleni. Mae y gwaith i safon I. ar y tudalen gyntaf yn unig, a'r gwaith i Safon II. o'r wythfed tudalen hyd y ddeuddegfed. Mae y llyfr wedi cael ei drefnu yn hollol eglur. Mae y rhan hono o'r tudalen gyntaf hyd yr wythfed wedi ei ranu am dair blynedd i Safon I., a'r rhan arall o hono o'r wythfed tudalen hyd y ddegfed ar hugain wedi ei ranu am bedair blynedd i Safon II.—*L. W., Ysg.*

DEALLWN fod erthygl R.J.J.,—"Hwnt i'r Synwyrau," a ymddangosodd yn YMOFYNYDD Chwefror, wedi ei chyhoeddi yn bamphledyn ceiniog, gyda'r Post, 1½c.

CAPELYGROES. — Yn ddiweddar mae cynulleidfa Capelygroes, trwy garedigrwydd Miss Jones, perchenog ystad Llwynygroes, wedi cael ychwanegiad o yn agos i haner cyfer o dir at y fynwent. Yr ydym yn awr wrth y gwaith o'i sychu a gwneud y cloddiau o'i hamgylch yn ddiogel. Cyn ei gwblhau, tybiwn y bydd o £20 i £30 yn eisieu, yn ychwanegol at yr hyn sydd mewn llaw eisoes. Credwn fod llawer tuallan i'r gynulleidfa, sydd a pherthynasau iddynt yn gorwedd yn yr hen fynwent, yn barod i gyfranu tuag at y draul. At y cyfryw yr apeliwn yn awr trwy gyfrwng YR YMOFYNYDD. Derbynir pob cyfraniad yn ddiolchgar gan y Trysorydd, Mr. Morgan, Moelfre ; yr Ysgrifenydd, Mr. Daniel Jenkins, Blaenwaunganol ; neu y gweinidog. *D. Evans.*

ABERDAR. — Yn nghyfarfod y Gymdeithas Ymdrechol yn Hen Dŷ Cwrdd, Mawrth 2, cafwyd anerchiad dyddorol ac adeiladol iawn gan y Parch. W. Alfa Richards ar "Bedd a Bywyd." Llawer o ddychymyg fu beth wnaethai o'r pwnc ; ond ni freuddwydiodd neb am ddim yn debyg i'r wledd gyfoethog a ddygwyd ger bron. Myned yr eglwysi gyfleusdra i fwynhau'r blas.

Yn yr H.D.C., dydd Llun, Mawrth 9, cynhaliwyd cymanfa ganu'r Plant, dan arweiniad y brawd ieuanc Dan Davies. Llywyddwyd yn y cyfarfodydd gan Miss Gwenllian George a Mrs. John James. Canodd y corau unedig yn dda, cafwyd tair neu bedair *solo* swynol, a thraddodwyd amryw anerchiadau pwrpasol i'r amgylchiad. Carem roi enwau pe buasai eich gofod yn caniatau, ond rhaid boddloni gyda dywedyd i bawb wneuthur eu gwaith yn ardderchog dda—yn enwedig y plant. Ewch rhagoch.

Clywn gyda phleser fod Mr. Matthew Watkin, myfyriwr yn yr Home Missionary College, Manchester, ac aelod o'r Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, newydd ei ddewis yn weinidog cynorthwyol i'r Parch. J. C. Odgers, yn yr eglwys Undodaidd yn Ullet Road, yn Lerpwl. Mawr lwyddiant iddo.

Darllenasom gyda phleser y dydd o'r blaen fod y Meistriaid C. H. Perkins, Abertawe ; L. N. Williams a Rees Llewelyn, Abedar, aelodau o'n cyfundeb ni, wedi eu derchafu i'r Faingc Ynadol. Nos Sul, Mawrth 22, pasiwyd pleidlais unfrydol yn H.D.C., Aberdar, yn llongyfarch y tri.

CHWEFROR 26ain, anrhegwyd deiliaid Ysgol Sul, Alltyplaca a'u gwledd dê flynyddol, gan Mrs. Davies, y Glyn, a Mr. a Mrs. Evans, Lowtre. Rhanwyd saith o lyfrau gwerthfawr i'r saith oedd wedi mynychu'r ysgol yn fwyaf rheolaidd drwy y flwyddyn yr hyn oedd wedi bod yn hynod dda. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyfarfod cystadleuol o dan lywyddiaeth ac arweinyddiaeth Mr. Lewis Thomas, Brynhafod. Beirniad y farddoniaeth, &c. oedd Dewi Barcer, a beirniad y gerddoriaeth oedd Mr. David Evans, Llanpumpsaint. Cafwyd cystadleuaeth dda, a gwnaeth y beirniaid eu gwaith yn ganmoladwy. Er garwed yr hin yr oedd y capel yn orlawn o wrandawyr astud. Trodd y cyfan allan yn llwyddianus iawn.

LLWYNRHYDOWEN. — Dydd Gwener, Mawrth 6, cynaliodd Ysgol Sul

y Llwyn ei gwyl dê a'i chyfarfod llenyddol blynyddol. Rhoddwyd y tê eleni gan deulu ffyddlon Esgerddedwydd, ac yr ydym yn ddiolchgar iawn i Mr. a Mrs. Davies a'r teulu am y parotoadau helaeth a blasus a wnaed ganddynt. Te ardderchog ydoedd. Yr oedd yr hin yn eithriadol o wlyb ac ystormus, ond daeth y bobl yn nghyd, yn hen ac ieuainc, mor gryno a phe bae ganol haf. Wedi gorphen a'r tê awd i'r hen gapel i gynal y cyfarfod a chafwyd cyfarfod neillduol o hapus. Nid cwrdd difyfyr fel y ceir weithiau ond cwrdd ag ol gwaith ynddo Bu y Parch. T. A. Thomas mor garedig a chymeryd y gadair a beirniadu yn y canu a'r cystadleuaethau ereill ac arweiniwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Yn ystod y cyfarfod diolchwyd yn wresog am y tê gan Cadben Davies a Mr. James Evans, arolygwr yr ysgol am y llynedd a throsglwyddodd yr olaf y Tystysgrifau a gwobrwyon i blant ffyddlon yr ysgol. Mae ein diolchgarwch gwresocaf yn ddyledus i Mr. Jones, Rhydowen Mill, Mr. D. R. Jones, Rhydfene, a Miss Jones, Gelliaur, am eu llafur gyda'r côr a'r plant.

CAPLYFADFA. — Nos Wener, y 13eg o Fawrth cynhaliwyd cyfarfod llenyddol blynyddol yr Ysgol Sul uchod yn yr hen gapel. Cymerwyd y gadair gan Cadben Davies, ac arweiniwyd yn bwrpasol gan Mr. T. G. Thomas. Aeth y plant drwy eu gwaith o adrodd a chanu (o dan arweiniad Miss Ellen Thomas) mewn modd canmoladwy. Yn ystod yr hwyr cyflwynodd Mr. E. Thomas, Fadfa 24 o'r Tystysgrifau a 50 o lyfrau i'r plant am eu ffyddlondeb. Yn ystod y cyfarfod cafwyd ychydig gystadleuaeth. Clorianwyd y beirdd gan Mr. D. Thomas, Cloth Hall, a gwnaeth Mr. D. Davies, Pantdefaid feirniad hapus ar y canu, areithio, &c. Bydded i'r cyfarfod esgor ar fwy o ffyddlondeb.

CAPELYBRYN.—Cynaliodd yr eglwys uchod ei gwyl dê a'i chyfarfod blynyddol dydd Gwener, Mawrth 6. Daeth aelodau yr Ysgol Sul—tua 70 mewn nifer—a llawer o gyfeillion yn nghyd at eu gilydd i fwynhau y wledd, yr hon a roddwyd eleni drwy garedigrwydd Mrs. Jones, Brynllefrith, a Mrs. Jones, Bwlchyberllan. O herwydd fod yr hin yn bur anffafriol, ag fod llawer o'r ffyddloniaid yn nglŷn a'r canu yn dioddef oddiwrth anhwylderau, nid oedd y cyfarfod cystadleuol yn yr hwyr yn gwbl mor lewyrchus ag arferol. Yn absenoldeb ein Cynghorydd Sirol, Mr. D. Martin Jones, Gwion Castle, llanwyd y gadair gan ei frawd o'r Garthowen, ac arweiniwyd yn ddymunol iawn gan Mr. T. Gwarnant Williams. Pwyswyd y cerddorion yn ofalus gan Mr. D. Hughes, Rhydyfydyr, a gofelid am y clorianau beirniadol ereill gan Mr. D. H. James, Beilibedw; Mrs. Jones, Alexandra House, Mrs. Jones, Garthowen; Mr. W. Evans, Cwrtffarm; a Mr. Timothy Evans, Bolahaul.

UNDEB YSGOLION SUL LLANDYSSUL.—Cyfarfu Pwyllgor yr uchod yn neuadd Pantdefaid, Sul y 29ain, er gwneud trefniadau gyferbyn a'r gymanfa gynhelir yn Mhantdefaid, Mai y 17eg. Mae y trefniadau fel y canlyn:—Arweinyddion, y Mri. John Jones a D. R. Jones, Llwyn. Cyfeilyddesau, Miss Jones, Brynowen a Miss Jones, Ceginan. Cenir y tônau canlynol—"Ambrose," "Bendithiad," "Alexander," a "St. Dewi." Tonau'r plant—"Fy nghartref sydd fry," a "One day nearer home." Yr anthemau ydynt "Drylliwyd y Delyn," a "Coron Cyfiawnder." Pregethir yn yr hwyr gan y Parch. E. O. Jenkins. Hyderwn y gwna aelodau y gwahanol eglwysi ymdrech egniol er cael cymanfa flodeuog eleni eto.

AT EIN GOHEBWYR.—Oherwydd diffyg gofod gadawyd amryw bethau dyddorol allan o'r rhifyn hwn. Byddwch ymarhous.—GOL.

J. D. Lewis, Argrafflydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR. THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ. CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 10s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & Co.,

THE ACKNOWLEDGED HOUSE

FOR

FURNITURE.

Rare Materials and Elaborate Workmanship are necessarily costly, but that the main essentials of a piece of Furniture—Beauty, Reliability, and Adaptability—may be secured at Low Prices, will be amply proved by an inspection of our Immense Stocks.

Inferior, badly-made Furniture is never CHEAP, no matter what its price may be.

We sell only such as we know will give satisfaction in use and afford gratification by its appearance, at prices which are Strictly Moderate and based entirely on the value of the materials used.

Our Show Rooms are now replete with the Finest Collection of Furniture and Furnishing Materials for all kinds of houses we have ever shown, and we respectfully invite intending purchasers to examine the same before placing their orders.

FURNITURE CATALOGUE (80 PAGES) FREE ON REQUEST.

Renovations & Removals. Estimates Free.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.